

ASTUDIAETHAU CERDDORIAETH CYMRU:
CYNHEILIAID Y GÂN

WELSH MUSIC STUDIES:
BEARERS OF SONG

ASTUDIAETHAU CERDDORIAETH CYMRU

Cynheiliaid y Gân

Ysgrifau i anrhydeddu Phyllis Kinney a Meredydd Evans

Golygwyd gan
SALLY HARPER a WYN THOMAS



Gwasg Prifysgol Cymru
Caerdydd
2007

WELSH MUSIC STUDIES

Bearers of Song

Essays in honour of Phyllis Kinney and Meredydd Evans

Edited by
SALLY HARPER and WYN THOMAS



University of Wales Press
Cardiff
2007

© Y Cyfranwyr a Chanolfan Uwch-
Astudiaethau Cerddoriaeth Cymru, Bangor,
2007

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng electronig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan Wasg Prifysgol Cymru, 10 Rhodfa Columbus, Maes Prifantinn, Caerdydd, CF10 4UP.

www.cymru.ac.uk/gwasg

Datganwyd gan y cyfranwyr eu hawl foesol i gael eu cydnabod yn awduron y gwaith hwn yn unol ag adrannau 77 a 78 o'r Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.

Mae cofnod catalogio'r gwaith hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 978-0-7083-2081-5

Cysodwyd yn Garamond gan Ganolfan Uwch-
Astudiaethau Cerddoriaeth Cymru a The Art
of Music, Dunblane

Agraffwyd ym Mhrydain gan Antony Rowe
Ltd, Wiltshire

© The Contributors and the Centre for
Advanced Welsh Music Studies, Bangor,
2007

All rights reserved. No part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted in any form or by any means, electronic, mechanical, photocopied, recording or otherwise without the prior permission of the University of Wales Press, 10 Columbus Walk, Brigantine Place, Cardiff, CF10 4UP.

www.wales.ac.uk/press

The Contributors have asserted their moral right under sections 77 and 78 of the Copyright, Designs and Patents Act, 1988 to be identified as the authors of this work.

A catalogue record for this book is available from the British Library.

ISBN 978-0-7083-2081-5

Typeset in Garamond by The Centre for
Advanced Welsh Music Studies, Bangor, and
The Art of Music, Dunblane

Printed in Great Britain by Antony Rowe Ltd,
Wiltshire



Merèd a Phyllis
'Cynheiliaid y Gân' / 'Bearers of Song'

Cynnwys · Contents

<i>Cyfranwyr · Contributors</i>	viii
<i>Lluniau · Illustrations</i>	x
<i>Byrfoddau · Abbreviations</i>	xi
<i>Cyflwyniad</i>	xii
<i>Introduction</i>	xvi

R. GERAINT GRUFFYDD

Merêd a Phyllis: Rhagair Personol	1
Merêd and Phyllis: A Personal Foreword	9

Rhan I: Cerddi · Part I: Poems

GWYN THOMAS

‘Meredydd + Phyllis’	20
----------------------	----

TONY CONRAN

Dafydd ab Edmwnd Variations: Music’s Green Mansions	25
---	----

ROBIN GWYNDAF

‘Cynheiliaid y Gân’: Salm o Fawl i Phyllis a Merêd	
‘Bearers of Song’: A Psalm in Praise of Phyllis and Merêd	34

Rhan II: Erthyglau · Part II: Articles

1 MARY-ANN CONSTANTINE

Mynd ar Drywydd Dernynnau: Iolo, Ritson a Robin Hwd	43
Chasing Fragments: Iolo, Ritson and Robin Hood	51

2 HYWEL TEIFI EDWARDS

<i>Aelwyd Angharad</i> : Y Cyd-destun Hanesyddol	59
<i>Aelwyd Angharad</i> : The Historical Context	76

3	RHIDIAN GRIFFITHS 'Y Cyfansoddwr Gorau': Ieuan Gwyllt a'r Alaw Gymreig 'The Best Composer': Ieuan Gwyllt and the Welsh Melody	93 106
4	SALLY HARPER Cerddoriaeth yn Llyfr Lloffion Phillip Powell o Aberhonddu (c.1630–35) Music in the Commonplace Book of Phillip Powell of Brecon (c.1630–35)	117 134
5	DANIEL HUWS Gwisgo Merched â Mesurau Dressing Women in Tunes	145 180
6	RHIANNON IFANS Ar Drywydd y Gyfrol Brintiedig Gyntaf o Waith Llenyddol yn y Gymraeg gan Ferch On the Trail of the First Literary Volume Published in Welsh by a Woman	189 207
7	CASS MEURIG Cyfansoddi Cerddoriaeth Draddodiadol Composing Traditional Music	227 240
8	WYN THOMAS 'Ffarwel i Aberystwyth . . .': Jennie Williams (1885–1971) a Byd yr Alaw Werin yng Nghymru 'Ffarwel i Aberystwyth . . .': Jennie Williams (1885–1971) and the World of Welsh Folk Song	251 280

Rhan III: Llyfryddiaethau · Part III: Bibliographies

HUW WALTERS

Byrfodau · Abbreviations	299
A: Meredydd Evans	300
B: Phyllis Kinney	316
C: Meredydd Evans & Phyllis Kinney	322
<i>Tabula Gratulatoria</i>	325

Cyfranwyr

Bardd nodedig Eingl-Gymreig a chyfeithydd barddoniaeth Gymraeg yw Tony Conran.

Cymrawd Ymchwil ac Arweinydd Prosiect yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru yw Mary-Ann Constantine.

Cyn-Athro'r Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru Abertawe, beirniad a hanesydd llenyddol yw Hywel Teifi Edwards.

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyn-geidwad Llyfrau Printiedig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw Rhidian Griffiths.

Ysgolhaig, beirniad a chyn-Gyfarwyddwr Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru yw R. Geraint Gruffydd.

Cymrawd Ymchwil Anrhydeddus yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan a chyn-Ddarlithydd Anrhydeddus ym Mhrifysgol Cymru, Bangor yw Robin Gwyndaf.

Cyfarwyddwr Canolfan Uwch-Astudiaethau Cerddoriaeth Cymru ac Uwch-Ddarlithydd mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, yw Sally Harper.

Cyn-geidwad Llawysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw Daniel Huws, ac mae'n arbenigwr ar lawysgrifau Canoloesol Cymru.

Cymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, ysgolhaig ac awdur yw Rhiannon Ifans.

Ffidler a chrythores yw Cass Meurig, sydd hefyd yn gwneud ymchwil ym maes cerddoriaeth werin Cymru.

Cyfarwyddwr Archif Cerddoriaeth Draddodiadol Cymru a Darlithydd mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, yw Wyn Thomas.

Athro Emeritws a chyn-bennaeth Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Bangor, ysgolhaig, beirniad, a Bardd Cenedlaethol Cymru 2006 yw Gwyn Thomas.

Pennaeth Uned Llyfryddiaeth Cymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth yw Huw Walters.

Contributors

Tony Conran is a celebrated Anglo-Welsh poet and translator of Welsh poetry.

Mary-Ann Constantine is a Research Fellow and Project Leader at the University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies.

Hywel Teifi Edwards, formerly Professor of Welsh at the University of Wales Swansea, is a critic and literary historian.

Rhidian Griffiths is Director of Public Services and a former Keeper of Printed Books at the National Library of Wales.

R. Geraint Gruffydd, a former Director of the University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, is a scholar and critic.

Robin Gwyndaf is an Honorary Research Fellow at St Fagans National History Museum, and a former Honorary Lecturer in folklore at the University of Wales, Bangor.

Sally Harper is Director of the Centre for Advanced Welsh Music Studies and Senior Lecturer in Music, University of Wales, Bangor.

Daniel Huws is a former Keeper of Manuscripts at the National Library of Wales, and the leading authority on Welsh medieval manuscripts.

Rhiannon Ifans is author, scholar, and a Research Fellow of the University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies.

Cass Meurig is a fiddle and crwth player, who also researches Welsh folk music.

Wyn Thomas is Director of the Archive of Traditional Welsh Music and Lecturer in Music, University of Wales, Bangor.

Gwyn Thomas, formerly Professor of Welsh at the University of Wales, Bangor, is scholar, critic, and National Poet for Wales 2006.

Huw Walters is Head of the Bibliography of Wales Unit at the National Library of Wales, Aberystwyth.

Lluniau · Illustrations

1	Merêd a Phyllis	v
2	Edward Williams, 'Iolo Morganwg' (1747–1826)	42
3	Cwmni Bethesda, <i>Aelwyd Angharad</i> (1913)	58
4	J. Lloyd Williams (1854–1945)	60
5	L. D. Jones, 'Llew Tegid' (1851–1928)	61
6	John Roberts, 'Ieuan Gwyllt' (1822–77)	94
7	'Llantrisant' (Ieuan Gwyllt, <i>Llyfr Tonau Cynulleidfaol</i> , 1876)	115
8	Phillip Powell, 'Lute Leasons' (CDp Llsg. 3.42, c.1635)	129
9	Phillip Powell, 'A Table of the chainges and certeyne tunes'	130–2
10	Jane Ellis, <i>Casgliad o hymnau, carolau a marwnadau</i> (1840)	206
11	Jennie Williams (1900), North London Collegiate School	271

*Fe gynhwysir lluniau drwy ganiatâd caredig y canlynol:
Illustrations are included by kind permission of the following:*

Llyfrgell Genedlaethol Cymru · The National Library of Wales (2, 6, 7, 10)

Archifdy, Prifysgol Cymru, Bangor · The Archive of the University of Wales,
Bangor (4, 5)

Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth Cyngor Dinas Caerdydd ·
Cardiff County Council Libraries and Information Service (8, 9)

North London Collegiate School (11)

Merêd a Phyllis (1)

Byrfoddau · Abbreviations

<i>BBCS</i>	<i>Bwletin y Burdd Gwybodau Celtaidd</i>
<i>CC</i>	<i>Cerddoriaeth Cymru</i>
<i>CG</i>	<i>Canu Gwerin</i>
<i>CCAGC</i>	<i>Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru</i>
<i>HCC</i>	<i>Hanes Cerddoriaeth Cymru</i>
<i>LIC</i>	<i>Llên Cymru</i>
<i>THSC</i>	<i>Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion</i>

<i>AWC</i>	<i>Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan</i>
<i>CDp</i>	<i>Caerdydd, Llyfrgell Ganolog</i>
<i>LIGC</i>	<i>Llyfrgell Genedlaethol Cymru</i>
<i>Llsg.</i>	<i>Llawysgrif</i>

<i>BBCS</i>	<i>Bulletin of the Board of Celtic Studies</i>
<i>FS</i>	<i>Folk Song</i>
<i>JWFSS</i>	<i>Journal of the Welsh Folk-Song Society</i>
<i>THSC</i>	<i>Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion</i>
<i>WMH</i>	<i>Welsh Music History</i>
<i>WMu</i>	<i>Welsh Music</i>

<i>AWC</i>	<i>St Fagans National History Museum</i>
<i>BL</i>	<i>British Library</i>
<i>CDp</i>	<i>Cardiff, Central Library</i>
<i>NLW</i>	<i>National Library of Wales</i>
<i>MS</i>	<i>Manuscript</i>

Cyflwyniad

Dyma nhw: eu dau fyd, dau fath o bobol.
Ond dyma ddau yn un a dynnwyd – yn briodol!
Dyma ddau 'oedd ar wahân
Ond a wnaed yn un
Gan gynghanedd ac ymgeledd Cân.

Mae cerdd Gwyn Thomas, sydd newydd gael ei hysgrifennu i anrhydeddu Meredydd Evans a Phyllis Kinney, yn llwyddo'n berffaith i grisialu un agwedd ar eu huniad dedwydd a gyflawnwyd 'gan gynghanedd ac ymgeledd Cân'. Yn yr un cywair mae Robin Gwyndaf yn eu galw'n 'cynheiliaid y gân', disgrifiad cofiadwy a fenthyciwyd ar gyfer teitl y gyfrol hon. Mae eu partneriaeth wedi bod yn un unigryw sy'n ennyn parch a hoffter; priodas rhwng dau fyd a dwy iaith sydd wedi ymestyn allan i gofleidio, annog ac ysgogi cymaint o bobl eraill ym myd cerddoriaeth ac ysgolheictod Cymreig. Ystyrir eu hastudiaethau ar y cyd o alawon gwerin Cymreig dros gyfnod o hanner canrif yn waith o'r safon uchaf gyda llawer ohono'n arloesol; ac, fel y noda R. Geraint Gruffydd yn ei werthfawrogiad cynnes o'u gorchestion yn y maes hwn a meysydd eraill, nid oes ball ar eu hegri deallusol hyd yn oed ar ôl iddynt groesi trothwy'r pedwar ugain. Nid yn unig maent yn olygyddion medrus a haneswyr trwyadl y canu Cymreig, ond hefyd yn berfformwyr ymroddedig ac mae eu cariad at rin arbennig y cyfuniad o eiriau ac alaw wedi galluogi rhai o fewn Cymru, a thu allan i'w ffiniau, i ddarganfod cynhysgaeth gyfoethog nad yw eto wedi cael ei gwerthfawrogi'n llawn. Mae'r bartneriaeth felodaidd hon mewn cân yn batrwm ar gyfer cydweithredu deallusol ac ymarferol na all ond ychydig obeithio ei hefelychu. Fodd bynnag, dim ond rhan yw hyn o'u cariad angerddol at ddiwylliant a cherddoriaeth Gymraeg yn gyffredinol, sy'n parhau i feithrin a chynnal ysgolheigion a pherfformwyr eraill.

Mae'r gyfrol hon i anrhydeddu Merêd a Phyllis yn adlewyrchu'r rhychwant hwnnw mewn amrywiaeth o gyfraniadau creadigol ac ysgolheigaidd sydd mor gyfoethog ac amrywiol eu cynnwys a'u harddull â diddordebau a phersonoliaethau'r cyfranwyr eu hunain. Eto, yr un nod sydd i bob eitem, sef ysgrifennu ar faes a fydd yn siarad yn uniongyrchol â'r ddau ac adlewyrchu eu diddordebau eu hunain, ac mae'r rhan fwyaf hefyd yn adeiladu ar themâu y mae Merêd neu Phyllis (neu'r ddau) wedi rhoi sylw iddynt eu hunain ar ryw adeg neu'i gilydd. Felly, anrhydeddir 'cynheiliaid y gân' gan gyfraniadau sy'n rhoi sylw i wahanol agweddau ar y gân yng Nghymru mewn rhyw ffordd: archwilar testunau ac alawon cysylltiedig; perfformwyr a chasglwyr; cynnwys a ffurf; cyd-destun a swyddogaeth, ac fe'u heglurir i gyd gan ddyfyniadau, delweddau gweledol neu enghreifftiau cerddorol. Gellir ystyried pump o'r cyfranwyr (ynghyd â Merêd a Phyllis) ymysg

hoelion wyth diwylliant acysgolheictod Cymreig: Tony Conran, un o feirdd mwyaf nodedig a chynhyrchiol Cymru sy'n ysgrifennu yn Saesneg; Hywel Teifi Edwards, un o gymeriadau amlycaf y byd Cymraeg, a hanesydd uchel ei barch diwylliant Cymreig oes Victoria; R. Geraint Gruffydd, cyn-Lyfrgellydd Cenedlaethol Cymru, a Chyfarwyddwr cyntaf Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru; Daniel Huws, dehonglwr tra medrus llawysgrifau canoloesol, bardd, ac ysgolhaig yr alaw werin Gymreig; Gwyn Thomas, Athro Emeritws y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor a Bardd Cenedlaethol Cymru yn 2006.

Mae'r gyfrol wedi ei rhannu'n dair rhan, a ragflaenir gan deyrnged R. Geraint Gruffydd i Merêd a Phyllis. Yn Rhan I ceir tair cerdd a gomisiynwyd yn arbennig, tra yn Rhan III ceir llyfryddiaeth drwyadl o'u gwaith, wedi ei llunio'n gelfydd gan Huw Walters. Mae Rhan II, yr adran ganolog, yn cynnwys wyth traethawd wedi eu gosod yn nhrefn yr wyddor yn ôl awdur yn hytrach na phwnc. Mae Mary-Ann Constantine yn edrych ar ddernyn o faled o un o lyfrau nodiadau Iolo Morganwg. Mae'n dangos bod y gydnabyddiaeth gynyddol ymysg ysgolheigion o statws Iolo fel casglwr cerddoriaeth yn ddyledus i raddau helaeth i'r gwaith arloesol diweddar a wnaed gan Phyllis a Merêd; yn wir, mae ail-gloriannu cyfraniad Iolo fel casglwr wedi bod yn fodd i ysgogi ymdrech newydd i geisio deunydd cerddorol nad ystyrid o fawr werth yn flaenorol a'i archwilio'n fanylach. Gan Hywel Teifi Edwards ceir ymdriniaeth awdurdodol ar gyd-destun cymdeithasol a hanesyddol y ddrama-gerdd *Aelwyd Angharad* (1899); gwaith sy'n mawrygu gwerthoedd traddodiadol yr aelwyd wledig Gymreig, ac a barhaodd yn hynod boblogaidd hyd at y 1930au, er gwaethaf y dirywiad yn statws yr iaith Gymraeg ac anesmwythyd dybryd cymdeithas wedi'r Rhyfel Mawr. Cyfansoddwyd y gerddoriaeth ar ei chyfer gan y casglwr nodedig hwnnw o alawon gwerin, J. Lloyd Williams, y mae ei nodiadau a'i bapurau (nawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru) wedi cael eu harchwilio'n drwyadl gan Merêd. Yn wir, bu'r rhain yn fwynglawdd o ddeunydd ymchwil pwysig ar gyfer ei waith ef a Phyllis. Mae Rhidian Griffiths yn cloriannu math arall o ganu: emynyddiaeth gynulleidfaol y *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* (1859), cyfrol a olygwyd gan Ieuan Gwyllt, harmonieiddiwr, trefnydd a chyfansoddwr llawer o emyn donau a salmau Cymreig. Pan ofynnwyd yn 1870 i 'gerddor Saesneg medrus a phrofiadol' nas enwir roi sylwadau ar y casgliad hwn, nododd mai'r cyfansoddwr a oedd yn cynhyrchu tonau da yn ddieithriad oedd un 'Alo Jimreig' (h.y. Alaw Gymreig); cadarnhad priodol o werth yr oriau a roddodd Phyllis a Merêd i ymdrin ag alawon Cymreig. Mae ymdriniaeth Sally Harper â chynnwys cerddorol llyfr lloffion a gasglwyd ynghyd yn Aberhonddu yn nechrau'r ail ganrif ar bymtheg, ac a oedd yn eiddo i Phillip Powell, yn adeiladu'n fwy uniongyrchol ar waith Phyllis: Phyllis a dynnodd sylw'r cyhoedd gyntaf at ei restr anarferol o 'wersi liwt' (t. 129). Mae'r erthygl bresennol hefyd yn ystyried cerddoriaeth arall yn y llyfr, yn cynnwys cyfres o alawon ac amrywiadau unigryw ar gyfer clychau eglwys a chlychseiniau a ysgrifennwyd mewn nodiant rhifiadol. Gan Daniel Huws ceir cyfraniad hwy mewn dwy ran, y ddwy ohonynt yn ehangu y gwaith arloesol helaeth a wnaed ar y cyd gan Merêd a Phyllis ar ddechreuadau'r arfer o ganu penillion. Yn y rhan

gyntaf trafodir cyfres o destunau baled Gymraeg y lluniwyd ei geiriau o stribedi o deitlau alawon Cymreig – bydd Phyllis yn sicr yn adnabod y rhan fwyaf ohonynt yn syth; tra yn yr ail ran ymdrinnir â'r term anniffiniadwy hwnnw 'canu cywydd pedwar', y mae ei ystyr yn aml wedi bod yn destun sylw gan Merêd ei hun. Bydd i ail-gloriannu'r dystiolaeth sydd ar gael oblygiadau pwysig i'n dealltwriaeth o ganu cynnar penillion yng Nghymru. Carreg filltir lenyddol o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw testun cyfraniad Rhiannon Ifans, sef casgliad o emynau, carolau a marwnadau gan un Jane Ellis neu Edward. Cyfansoddwyd rhai'n benodol ar gyfer alawon plygain a oedd ar gael eisoes, tra bo eraill o natur bersonol iawn, yn coffáu trychinebau lleol a theuluol. Mae'r casgliad hwn yn ddarganfyddiad pwysig sy'n ailasesu safle merched yn y byd cyhoeddi Cymreig. Gwahanol yw cywair erthygl Cass Meurig, gan ei bod yn ymwneud yn bennaf ag ymarfer cyfoes yn hytrach nag astudiaeth hanesyddol. Wedi ei seilio ar gyfres o gyfweiliadau gyda cherddorion traddodiadol, mae'n ein hatgoffa bod alawon mewn idiom draddodiadol ddi-dor yn dal i gael eu casglu ynghyd a'u cyfansoddi yng Nghymru heddiw. Mae ei chyfraniad yn cadarnhau barn Phyllis a Merêd bod rhaid i rodd yr alaw, boed ar gyfer llais neu offeryn, gael ei chadw'n fyw a'i mwynhau yn hytrach na'i chyfyngu rhwng cloriau llyfr. Yn olaf, ceir cyfraniad Wyn Thomas ar gasglwr a golygydd caneuon gwerin arall, Jennie Williams o Aberystwyth (1885–1971), a gasglodd lawer o'i deunydd ger yr ardal lle mae Merêd a Phyllis yn byw ar hyn o bryd. Mae'n deyrnged i ymdrechion arloeswraig arall, un a ledaenodd werthfawrogi canu gwerin Cymreig y tu hwnt i ffiniau Cymru ei hun, trwy annog perfformiadau yn Lloegr a Ffrainc – gorchest y byddai Merêd a Phyllis eu hunain yn ddi-os yn ei mawrygu!

Roedd yn eithriadol bwysig i'r golygyddion fod yr holl ddeunydd yn y gyfrol hon yn ymddangos yn ddwyieithog (oni bai bod rheswm da i'r gwrthwyneb), er gwaetha'r goblygiadau ar gyfer hyd a chost.¹ Nid yn unig y dylai darllenwyr y ddwy ochr i'r Iwerydd allu darllen y deunydd yn yr iaith o'u dewis, ond yn bwysicach fyth, mae cyhoeddiad trwyadl ddwyieithog yn gydnabyddiaeth hanfodol o'r hyn y mae Merêd a Phyllis eu hunain wedi ei gyflawni. Law yn llaw ag ymgyrchu diflino Merêd dros yr iaith Gymraeg (lle cafodd gefnogaeth lawn Phyllis bob amser, fel y pwysleisia Geraint Gruffydd), mae Phyllis, hithau, yng ngeiriau Robin Gwyndaf, wedi 'mabwysiadu'n gwlad a dysgu'n hiaith; . . . uniaethaist . . . â'i hanes; . . . anwylaist ei halawon, a darganfod trysor'. Bydd unrhyw un sydd wedi treulio amser yn eu cwmni wedi profi hyfrydwch sgwrs sy'n symud yn ôl a blaen yn rhwydd rhwng Cymraeg a Saesneg fel y mae'r amgylchiadau'n galw, ac sy'n cynnwys pawb y maent yn ymwneud â hwy. Yn arbennig, mae eu cefnogaeth a'u hanogaeth ill dau i bawb sydd wedi dysgu'r iaith (fel Phyllis ei hun) wedi bod yn ddifedur, fel y tystia tair o gyfranwyr y gyfrol hon. Hyd yn oed yn y recordiad diweddar o hanner cant o ganeuon gwerin Cymreig, dan y teitl *Merêd* (lle mae Phyllis yn canu hefyd),

¹ Yr unig eithriad yw testun cerdd Tony Conran a thestunau rhai caneuon. Fodd bynnag, rhoddir y deunydd a ddyfynnir o ffynonellau gwreiddiol mewn cyfieithiad yn unig yn fersiynau Saesneg pob erthygl, ac anogir y darllenwyr i droi at y testun Cymraeg i weld y dyfyniad gwreiddiol.

nodir yn arbennig ei fod yn 'ddelfrydol ar gyfer dysgwyr a rhai y mae'r Gymraeg yn newydd iddynt', diolch i'r cyfieithiadau llawn o'r testunau a'r nodiadau eglurhaol. Mae'r gyfrol hon felly'n cadarnhau'r angen am hygyrchedd llawn, a thrwy hynny alluogi diwylliant a cherddoriaeth Gymreig i gael eu gwerthfawrogi'n briodol yn rhyngwladol, a hyrwyddo ysgrifennu ysgolheigaid trwyadl yn y ddwy iaith. Mae'n estyniad naturiol hefyd o waith y Ganolfan Uwch-Astudiaethau Cerddoriaeth Cymru ym Mangor, lle mae'r teitl cyffredinol 'Astudiaethau Hanes Cymru' yn ategu cyfnodolyn cwbl ddwyieithog y Ganolfan, *Hanes Cerddoriaeth Cymru* (y mae Merèd a Phyllis wedi bod yn gyfranwyr brwdfrydig iddo).

Dymuna'r golygyddion ddiolch yn ddiffuant i'r holl gyfranwyr am gyflwyno eu gwaith a dychwelyd profleuni mewn modd eithriadol o effeithlon; i Alistair Warwick, John Paul Jones ac Owain Llwyd am gysodi'r enghreifftiau cerddorol; i Wyn Hobson a Craig Owen Jones am ddarparu cyfieithiadau Cymraeg a Saesneg ar gyfer peth o'r deunydd; i Dr Sylvia Prys Jones a staff yr Uned Gyfieithu, Prifysgol Cymru, Bangor; ac i Sarah Lewis a'i chyd-weithwyr yng Ngwasg Prifysgol Cymru am anogaeth a chynghor. Mae diolchiadau'n ddyledus hefyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru; Cronfa Goffa Thomas Ellis (Prifysgol Cymru); Canolfan Ymchwil Cymru, Prifysgol Cymru, Bangor; Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Cymru, Bangor; a'r Archif Cerddoriaeth Draddodiadol Gymreig, Prifysgol Cymru, Bangor am eu cefnogaeth ariannol hael.

*Sally Harper
Wyn Thomas*

Awst 2006